

## **Llawdriniaeth twll clo i dynnu meinwe'r fron i drin canser y fron**

*Mae 'arweiniad  
Techlechydd' NICE  
yn rhoi cyngor i'r  
GIG ar sut a phryd y  
gellir defnyddio  
triniaethau newydd  
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â sut a phryd y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu meinwe'r fron yn y GIG i drin pobl â chanser y fron. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio canser y fron na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i benderfynu. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dweud pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw.

Am y rheswm hwn, mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil (a elwir hefyd yn dreial clinigol) y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni. Dylai'r ymchwil edrych ar ba mor dda mae'r driniaeth yn gweithio gyda gwahanol feintiau o ganser a chanser mewn gwahanol fannau, maint y fron, p'un a dynnwyd digon o feinwe o amgylch y canser, edrychiad y fron ar ôl y driniaeth, a yw'r canser yn dychwelyd neu a fydd angen llawdriniaeth bellach, ansawdd bywyd a'r tebygolrwydd o oroesi. Dylid cynnal yr ymchwil mewn ysbytai sy'n arbenigo yn y gwaith o reoli canser y fron gan lawfeddygon sydd wedi'u hyfforddi mewn llawdriniaeth canser y fron a llawdriniaeth twll clo.

Efallai y bydd NICE yn edrych ar y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i law.

## Sylwadau eraill gan NICE

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud ag astudiaethau a gynhaliwyd yn Nwyrain Asia gyda phobl â bronnau bach. Gallai'r dechneg gynnig canlyniadau gwahanol i ferched â bronnau mwy. Mae'r driniaeth hefyd wedi'i defnyddio i drin lympiâu yn y fron nad ydynt yn ganseraidd (anfalaen).

I gael manylion holl ganllawiau NICE ar ganser y fron a'i driniaethau (meddygol a llawfeddygol) ewch i'n gwefan yn

[www.nice.org.uk/Guidance/Topic](http://www.nice.org.uk/Guidance/Topic)

*Efallai nad hon yw'r  
unig driniaeth bosibl  
ar gyfer trin canser  
y fron.*

*Dylai eich tîm gofal  
iechyd siarad â chi  
ynghylch  
p'un a yw'n addas i  
chi a pha opsiynau  
triniaeth eraill sydd  
ar gael.*

## Llawdriniaeth twll clo i dynnu meinwe'r fron i drin canser y fron

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'mastectomi endosgopig a thoriad lleol eang endosgopig ar gyfer canser y fron'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Canser y fron yw'r canser mwyaf cyffredin mewn merched. Mae'n digwydd mewn dynion hefyd, ond mae hyn yn llawer mwy anghyffredin. Nodir bod canser y fron yn y cyfnod 'cynnar' os y'i canfyddir yn y fron a'r nodau lymff cyfagos (gan amlaf o dan y gesail) ac nid yw wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff. Disgrifir y canser fel 'datblygedig' os yw wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff neu os yw wedi tyfu'n uniongyrchol i mewn i feinwe arall ac na ellir ei dynnu'n llwyr gan lawdriniaeth. Mae'r triniaethau yn dibynnu ar y math o ganser, pa mor bell y mae wedi lledaenu, pa mor gyflym y mae'n tyfu, iechyd y claf a'i ddymuniadau.

Yn aml llawdriniaeth yw'r dewis cyntaf ar gyfer canser y fron cynnar a gall gynnwys tynnu'r fron gyfan (mastectomi) neu ran o'r fron (toriad lleol eang). Gellir cynnig radiotherapi, cemotherapi neu therapi hormonau hefyd.

Gwneir y driniaeth twll clo hon gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Tynnir rhan o feinwe'r fron (toriad lleol eang endosgopig) neu holl feinwe'r fron (mastectomi endosgopig) gan ddefnyddio offer arbennig a roddir drwy doriadau bach yn y croen. Gadewir amlen groen y fron a'r deth yn gyfan fel y gellir gosod mewnbaniad yn ystod yr un llawdriniaeth.

### **Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi (a elwir hefyd yn dreial clinigol).

Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy'n cael y driniaeth hon yn y DU. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

### **Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis  
cael y driniaeth  
hon, cael triniaeth  
wahanol, neu  
beidio â chael  
triniaeth  
o gwbl.*

## **Crynodeb o fanteision a risgiau posibl**

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras yma. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

## **Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?**

Mewn astudiaeth o 551 o gleifion a gafodd mastectomi twll clo, ar ôl 66 mis roedd 100% o gleifion â charsinoma dwythellol in situ (math cynnar iawn o ganser y fron nad yw'n ymledol, a dalfyrrir yn aml i DCIS), a dros 91% o gleifion â chanser y fron cynnar, yn rhydd o'r clefyd. Fodd bynnag, ar ôl 38 mis roedd y canser wedi dychwelyd mewn 23 (neu 4%) o'r cleifion. Nododd yr astudiaeth hon hefyd fod 366 o gleifion (allan o'r 481 o gleifion a ymatebodd i holiadur) o'r farn bod y driniaeth wedi rhoi canlyniad 'da' iddynt, roedd 66 o'r farn iddynt gael canlyniad 'gweddol' ac roedd 49 o gleifion o'r farn iddynt gael canlyniad 'gwael'.

Mewn astudiaeth o 46 o gleifion (21 o gleifion a gafodd driniaeth twll clo a 25 a gafodd mastectomi traddodiadol), roedd pob un o'r cleifion yn fyw ar ôl 19 mis ar gyfartaledd (yn amrywio o 6 i 35 mis). Cwblhaodd yr astudiaeth brofion labordy ar gyfer celloedd canser ar ymylon y feinwe a dynnwyd. Gadawyd rhai celloedd canser ar ôl mewn dau glaf yn y grŵp twll clo ac mewn un claf yn y grŵp arall. Roedd angen i'r cleifion gael radiotherapi i ladd unrhyw gelloedd canser a oedd yn weddill. Digwyddodd hyn mewn dau glaf arall mewn dwy astudiaeth bellach a oedd yn cynnwys cyfanswm o 26 o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw goroesi yn yr hirdymor, cael gwared ar y canser yn llwyr, sicrhau nad yw'r canser yn dychwelyd, boddhad y claf, rheoli'r

## **Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 188**

boen ar ôl y driniaeth, dychwelyd i'r gwaith yn gyflym ac aros yn yr ysbyty am gyn lleied o amser â phosibl.

### **Risgiau a phroblemau posibl**

Mewn dwy astudiaeth o gyfanswm o 584 o gleifion, nodwyd achosion o feinwe'n marw (teth, croen, braster neu gyhyr) mewn 42 o gleifion. Mewn dwy astudiaeth arall, yn cynnwys cyfanswm o 89 o gleifion, cafodd chwe chlaf losgiadau. Nododd astudiaeth o 84 o gleifion achosion o waedu neu gleisio (hemotoma) mewn naw claf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau posibl yn cynnwys niwed difrifol i bibellau gwaed neu nerfau, aer yng ngheudod y frest (gan achosi i'r ysgyfaint ymgwmpo), problemau gyda'r croen ac amser llawdriniaeth hwy ar gyfer y driniaeth twll clo.

### **Rhagor o wybodaeth am ganser y fron**

Gall NHS Choices ([www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i [www.nice.org.uk/aboutguidance](http://www.nice.org.uk/aboutguidance)*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'mastectomi endosgopig a thoriad lleol eang endosgopig ar gyfer canser y fron'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn [www.nice.org.uk/HTG188](http://www.nice.org.uk/HTG188)*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

ISBN 978-1-4731-7893-9

N1940 1P Apr 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.